CYFARWYDDYD, DOCUMENT

# Sicrwydd a hyblygrwydd - pecynnau adnoddau

Pecynnau adnoddau

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 18 Ebrill 2024

**Diweddarwyd diwethaf:** 18 Ebrill 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/sicrwydd-a-hyblygrwydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

# Ar y dudalen hon

**Sut mae rhoi sicrwydd a hyblygrwydd i'ch gweithlu**

**Beth allaf ei wneud fel cyflogwr i roi sicrwydd a hyblygrwydd i fy ngweithwyr?**

**Pecyn cymorth - Sicrwydd a hyblygrwydd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/sicrwydd-a-hyblygrwydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

# Sut mae rhoi sicrwydd a hyblygrwydd i'ch gweithlu



Mae cynnig hyblygrwydd a sicrwydd swydd lle bo hynny'n bosibl yn elfen bwysig o Waith Teg.

Er mwyn cael y gorau gan eich gweithwyr, mae'n hanfodol eu bod yn cael yr hyblygrwydd i wneud eu gwaith o fewn realiti eu bywyd bob dydd, yn enwedig yn yr hinsawdd recriwtio heriol sydd ohoni heddiw. Ac i gael eich cydnabod fel cyflogwr Gwaith Teg, dylech bob amser fod yn deg ac yn dryloyw gyda'ch staff ynghylch gofynion a disgwyliadau pob rôl.

Dyma rai o'r ffyrdd y gall cynnig sicrwydd a hyblygrwydd i'ch staff fod o fudd i'ch busnes:

- Bydd bod yn hyblyg a sicrhau bod eich gweithwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu rolau yn hyrwyddo tegwch ar draws y sefydliad ac yn helpu i feithrin

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/sicrwydd-a-hyblygrwydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

ymddiriedaeth gan eich timau.

- Bydd rhoi mwy o reolaeth i'ch gweithwyr dros eu bywyd gwaith yn helpu i gynyddu cyfraddau cadw staff gan ei fod yn lleihau lefelau straen ac yn rhoi hwb i ymgysylltiad gweithwyr. Canfu ymchwil CIPD fod gweithwyr hyblyg yn debygol o gymryd mwy o ran, gan leihau trosiant staff 87%.
- Gall cynnig hyblygrwydd o ran dyluniad swydd, oriau gwaith a gweithio o bell ddylanwadu'n gadarnhaol ar ba mor gynhyrchiol yw eich gweithlu, gyda 9 o bob 10 gweithiwr yn dweud eu bod yn ystyried gweithio hyblyg fel ysgogwr allweddol i'w cynhyrchiant yn y gwaith.
- Mae 1 o bob 4 gweithiwr yn y DU yn profi lefelau cymedrol i uchel o weithio ansicr, sy'n gysylltiedig â gwaith annheg. Mae hyn nid yn unig yn niweidiol i'w hiechyd ond hefyd i'w cynhyrchiant a'u lefelau o ymrwymiad yn y gwaith. Gall darparu sicrwydd contract a rhoi digon o rybudd yngl?n â phatrymau sifft ac unrhyw newidiadau helpu i fynd i'r afael â hyn.
- Mae'r argyfwng costau byw hefyd yn ychwanegu at yr her i weithwyr a chyflogwyr. Yn ôl Awdurdod Ymddygiad Ariannol y DU, mae 67% o weithwyr yn cael trafferthion ariannol ar hyn o bryd. Drwy gynnig cymaint o ddiogelwch â phosibl o amgylch rolau eich staff, gallwch helpu i leihau rhywfaint o'r straen sy'n gysylltiedig â'u pryderon ariannol, ac yn ei dro gall hynny wella cynhyrchiant a pherfformiad busnes.

## Beth allaf ei wneud fel cyflogwr i roi sicrwydd a hyblygrwydd i fy ngweithwyr?

Felly rydych chi'n deall manteision cynnig sicrwydd a hyblygrwydd i'ch gweithwyr. Ond pa gamau allwch chi eu cymryd i wireddu'r rhain yn eich busnes?

Dyma rai camau ymarferol i'w hystyried:

**Darparu sicrwydd drwy warantu oriau eich gweithwyr**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/sicrwydd-a-hyblygrwydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

Ymrwymwch i sicrhau bod gweithwyr yn cael cynnig sicrwydd isafswm oriau wedi'u gwarantu. Peidiwch â rhoi contractau heb eu gwarantu – neu gontractau dim oriau – ar weithwyr yn unochrog, a rhowch ddigon o rybudd i'r holl weithwyr wrth wneud unrhyw newidiadau i'w patrymau shifft neu eu horiau.

### Ystyried ffyrdd newydd o gynnig gweithio hyblyg/o bell

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o alluogi 30% o weithwyr Cymru i weithio gartref neu'n agos at gartref. Drwy roi'r dewis i fwy o bobl weithio mewn ffordd sy'n eu helpu i wella eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a hefyd, o bosibl, rheoli cyfrifoldebau gofalu neu gyflyrau iechyd hirdymor, gall cyflogwyr elwa o fwy o deyrngarwch a chynhyrchiant.

Dyma rai enghreifftiau o wahanol fathau o weithio hyblyg:

- Amser hyblyg
- Amserlen gywasgedig
- Gweithio hybrid
- 100% o bell
- Rhannu swydd
- Amgylchedd Gwaith yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn Unig
- Rhannu shifftiau
- Gwyliau blynyddol diderfyn
- Wythnos waith 4 diwrnod

Cyn cyflwyno polisi gwaith hyblyg yn llawn, mae'n werth cynnal treial yn gyntaf gyda nifer cyfyngedig o weithwyr am fis o leiaf i gasglu digon o ddata i bennu pa mor ymarferol ydyw a chanfod problemau posibl.

Bydd angen i chi hefyd wneud yn si?r bod eich rheolwyr wedi'u hyfforddi yn y ffordd orau o oruchwylio gweithwyr o bell yn effeithiol a sicrhau'r perfformiad gorau posibl.

### Ystyried hyblygrwydd wrth ddylunio swyddi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/sicrwydd-a-hyblygrwydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

Defnyddiwch hyblygrwydd o ran cynllunio swyddi, oriau gwaith a gweithio o bell i hyrwyddo cynhwysiant a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Galluogwch y gweithwyr i gyd-greu eu ‘swyddi da’ eu hunain sy’n cael eu cefnogi gan reolwyr ac sy’n cyd-fynd â pholisïau ac arferion eich sefydliad. Drwy weithio gyda’ch gweithwyr i gynllunio eu swyddi fel hyn, byddwch nid yn unig yn diwallu anghenion y gweithwyr unigol yn fwy cywir, ond byddwch hefyd yn gallu gwella perfformiad eich sefydliad.

### Cadw rhai trefniadau gwaith safonol hefyd

Os yw’n bosibl, ceisiwch gadw rhai amserlenni gwaith safonol ar gyfer y gweithwyr hynny y mae’n well ganddynt weithio ar y safle ac yn ystod oriau traddodiadol. Y syniad y tu ôl i bolisïau gwaith hyblyg yw rhoi mwy o opsiynau i weithwyr weithio pryd a ble maen nhw fwyaf cynhyrchiol, ond dydych chi ddim eisiau dieithrio’r rheini sy’n hapus gyda’r trefniadau presennol na gwneud bywyd yn anoddach iddyn nhw.

### Cadw mewn cysylltiad

Dim ond pan fydd gweithwyr yn parhau i ymgysylltu a chysylltu â’i gilydd ac â’u rheolwyr y mae polisïau o bell yn gweithio’n dda. Fel arweinwyr, bydd angen i chi a’ch tîm rheoli barhau i annog cydweithio ymysg aelodau’r tîm a chynnal cyfleoedd iddynt ryngweithio a chymdeithasu â chydweithwyr eraill.

## Pecyn cymorth - Sicrwydd a hyblygrwydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/sicrwydd-a-hyblygrwydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**



Rydym wedi paratoi'r pecynnau adnoddau defnyddiol hyn – un ar gyfer pob egwyddor Gwaith Teg – i'ch helpu ar y llwybr tuag at ddod yn gyflogwr Gwaith Teg.

Mae sawl ffordd o roi mwy o sicrwydd a hyblygrwydd i'ch gweithlu a chyfoeth o adnoddau ac adnoddau ar-lein i'ch helpu i roi'r egwyddor hon ar waith ar draws eich sefydliad. Ond mae gwybod sut i lywio drwy'r holl wybodaeth yn gallu bod yn her, felly rydyn ni wedi casglu rhai o'r rhai mwyaf defnyddiol yma:

## Achrediad Oriau Byw | Y Sefydliad Cyflog Byw

Mae'r **Sefydliad Cyflog Byw** wedi datblygu diffiniad newydd o safon dda i'r cyflogwyr rheiny a all gynnig 'Oriau Byw' ochr yn ochr â Chyflog Byw Gwirioneddol.

## Cynllunio Swyddi | Taflenni Ffeithiau | CIPD

Mae'r **daflen ffeithiau hon gan y Sefydliad Siartredig dros Ddatblygu Proffesiynol** yn edrych ar gynllunio swyddi a chysylltiadau hynny â chymhelliant yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/sicrwydd-a-hyblygrwydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**

y gwaith, grymuso ac ansawdd swyddi. Mae’n edrych ar egwyddorion cynllunio swyddi, rôl dadansoddi swyddi a sut gall asesu ansawdd swyddi helpu.

## Gweithio o Bell Cynhwysol | Pecyn Cymorth – Business in the Community

Mae’r pecyn cymorth hwn gan Business in the Community yn edrych ar sut mae sicrhau bod ffyrdd o weithio gartref, hybrid ac yn y swyddfa mor gynhwysol â phosibl, ac mae’n argymell ffyrdd gwahanol i fusnesau fynd i’r afael â’r dyfodol newydd o weithio hyblyg a **gweithio o bell**.

## Beth Petai Eich Swydd o Les i Chi? –Business in the Community

Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r camau amrywiol y gall cyflogwyr eu cymryd i drawsnewid lles yn y gwaith. Mae’n nodi sut gall arweinwyr busnes greu amgylchedd lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud eu gwaith gorau. Mae hefyd yn amlinellu **sut mae sicrhau swyddi da** i bawb sy’n sbarduno canlyniadau iechyd meddwl cadarnhaol cynaliadwy.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/sicrwydd-a-hyblygrwydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**